CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**27.02.20**
**7pm**
**CYFARFOD LLAWN**

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

**Presennol:** JAJ (Cadeirio); RJ; DP; EW; DW; TAJ; BJ; GW

**Ymddiheuriadau:** DL; EO; IW; JOJ; AR

**Yn mynychu:** SWR; JG

## 2. Datgan Diddordeb
Datganodd JG a DP diddordeb yn Eitem 9 - Materion Cynllunio.

## 3. Cofnodion cyfarfod
Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion Pwyllgor Llawn 30.01.20 - (TAJ/DW)

## 4. Materion yn Codi
Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 27.2.20

## 5. Materion Cyffredinol – drwy'r Gadair

**DP -** nododd bod gorddrws Eglwys Ceidio wedi dechrau pydru. Cytunwyd i GW weithredu.

**DW** - holodd os oedd modd i JG ddwyn y mater o lanast mawr du allan i'r Tai Cyngor ger y Fynwent Gyhoeddus (30/31 Maes Athen) Nododd y Clerc ei bod wedi hysbysu CSYM eisoes ond heb dderbyn ateb hyd yma.

**TAJ -** holodd barn yr aelodau i roi cyfraniad ariannol i ardal Llanrwst yn dilyn y llifogydd diweddar. Cytunwyd yn unfrydol i rodd o £50 (DW/EW) Clerc i weithredu.

**RJ -** nododd bod dwr yn codi ar Lon Amlwch ger mynediad i Maes Cyhelyn a bod CSYM gyda gorchymyn Adran 58 mewn lle i ail-agor y ffordd yn dilyn pibell wedi byrstio.



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

**GW -** cyfeiriodd at alwad frys gan Rheolwr Practis Coed y Glyn yn pryderu am goeden oedd yn pwyso ar do Glan Menai yn dilyn storm. Nododd ei fod wedi bod yno i dorri top y goeden a diogelu'r safle. Cytunwyd i drefnu archwiliad o'r coed ar safle Stesion a Glan Menai i sicrhau eu bod yn ddiogel.

**JG -** cyfeiriodd at Gyllideb CSYM a'r bwriad o godi'r dreth 4.9% ond bod y ffigwr yma eto i'w gadarnhau mis Mawrth 2020

**JAJ -** cyfeiriodd at y gost o drwsio'r Cae-amlbwrpas a'r posibilrwydd o ofyn am gyfraniad gan yr Ysgol Gynradd at y gost. Nododd y Clerc ei bod wedi holi'r Pennaeth a bod cyllideb yr Ysgol yn fregus ac na allay weld bydd modd cyfrannu. Nodwyd mai cyfrifoldeb CC Llan yw'r Cae-amlbwrpas gan fod y Les rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymdeithas. Cytunwyd i dalu cyfran o'r gost o bwrs Ysgol Haearn ac i'r Clerc geisio copi o'r Les gan CSYM er gwybodaeth.

- cyfeiriodd at y sefyllfa parcio ger Maes Ceidio a'r pryder a fynegwyd eisoes na fyddai trafnidiaeth frys e.e. ambiwlans yn gallu cael mynediad i'r stad. Dywedodd ei fod bellach wedi cael trafodaeth gyda 2 o drigolion sy'n fodlon gwerthu tir i CSYM i greu llecyn parcio fyddai yn dileu'r broblem. Cytunodd JG i holi swyddogion CSYM am y posibilrwydd o weithredu hyn.

Nododd y Clerc bod DL wedi dwyn i'w sylw'r pryder sydd gan rieni'r dalgylch am ddyfodol Swyddfa'r Urdd ar yr Ynys. Gan mai cyfnod ymgynghori mewnol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, cytunwyd i ddisgwyl canlyniad y cyfnod hwn cyn gweithredu pellach, ond cadw'r pwnc ar raglen CC Llan.

## 6. Materion yr Heddlu

Dim diweddariad i law er bod y Clerc wedi eu gwahodd i'r cyfarfod. Clerc i drefnu cyfarfodydd un i un hefo PSCO

## 7. Materion Safleoedd

Dim i'w drafod

## 8. Materion Cyllidol a Thaliadau

| **Ôl daliadau** | **£** |
|---|---|
| Scottish Power – goleuadau Dolig | 34.08 |
| Carolyn Owen - ad-daliad am alwad allan i wirio cyflenwad/cyfarpar | |
| Nwy a rhent misol y tanc i Avanti Gas | 277.44 |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| Nwy Prydain – trydan Lawnt Fowlio | 9.68 |
| Brian Williams – trwshio boiler olew | 194.91 |
| HJT Electrical – archebu a gosod sychwr dwylo newydd yn nhoiledau'r Caffi | 274.19 |
| Nwy Prydain - blaendal boiler newydd i'r Caffi | 1000.00 |

Nododd y Clerc bod boiler newydd nwy wedi ei osod bellach a'i bod wedi negydu gostyngiad pellach o £300 yn y pris i £4510.72. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd cytunwyd i roi blaen daliad o £1000 gyda 12 mis o daliadau di-log o £292.56. Atgoffwyd yr aelodau bydd ad-daliad TAW o £751.59 ar y pris uchod, felly gwir bris y boiler fydd £3758.93. Cytunwyd yn unfrydol a'r camau gymerwyd i sicrhau'r gostyngiad pris.

**Taliadau**

Cytunwyd i dalu:-

| | |
|---|---|
| North Wales Fencing – trwshio ffens Cae-amlbwrpas | 556.80 |
| MSI Alarms - newid batris y larymau diogelwch | 79.20 |
| Scottish Power – trydan Uned 1 Tan y Foel – angen gwir ddarlleniad | 97.64 |
| Scottish Power – trydan Clwb Peldroed- angen gwir ddarlleniad | 160.06 |

**9. Materion Cynllunio**

4 cais i law wedi eu cylchredeg i'r aelodau o flaen llaw trwy e-bost.

VAR 2020/6 – Ty'n Rallt Carmel – diwygio amod – dim gwrthwynebiad

HHP 2020/22 - Llys Elen Lon Cilgwyn, Llannerchymedd - creu mynedfa newydd codi garej sengl unigol, amnewid ardal y decin - dim gwrthwynebiad os yw'n bodloni Adran Priffyrdd o ran gweledèdd

VAR 2020/10 - Maryfore Site, Stryd y Bont, Llannerchymedd - diwygio amodau dan Adran 73. Gan fod yr aelodau yn teimlo bod eglurhad y cais braidd yn aneglur cytunwyd i JG holi ymhellach ac i'r Clerc rannu unrhyw wybodaeth bellach ar e-bost er mwyn derbyn unrhyw sylwad pellach.

LUP/2020/01 Betws y Gwynt Llannerchymedd. Nodwyd bod y cais hwn gan Cyng. Dafydd Parry oedd wedi datgan diddordeb eisoes. Gadawodd DP y cyfarfod ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth.



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Nodwyd mai cais oedd am Dystysgrif Cyfreithlondeb defnydd arfaethedig ar gyfer defnydd yr annedd fel annedd marchnad agored. Cynigwyd dim gwrthwynebiad gan TAJ ac fe eiliwyd gan DW a chytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais. Dychwelodd DP i'r cyfarfod.

**10. Gohebiaeth Gyffredinol**

Cyfeiriodd y Clerc am 3 llythyr dienw mae wedi ei dderbyn yn ddiweddar. Gofynnodd am ganiatâd yr aelodau i roi arwydd ar yr hysbysfwrdd yn egluro na all CC Llan ymateb i sylwadau a phryderon os ydynt yn ddienw - cytunwyd.

Dyddiad gyfarfod mis Mawrth yn newid i wythnos yn gynt sef nos Iau **19.3.20 am 7pm** oherwydd ymrwymiad arall gan y Clerc ar 26.03.20

*Daeth y cyfarfod i ben am 9pm*



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383